

Datganiad Newyddion



Embargo tan 1200 (hanner dydd), Dydd Gwener 18 Mehefin 2021

**Growth Track 360 yn cefnogi cynnig £30 miliwn Sir y Fflint i Gronfa Codi'r
Gwastad y DU i gyflymu trawsnewidiad rheilffordd y Gororau rhwng
Wrecsam a Lerpwl**

Mae arweinwyr busnes ac awdurdodau lleol o Ogledd Cymru, Cilgwri a Gorllewin Swydd Gaer a Chaer ym mhartneriaeth Growth Track 360 wedi cefnogi'r cynnig i Gronfa Codi'r Gwastad y DU gan Gyngor Sir y Fflint, awdurdod sy'n aelod, yn gofyn am £30 miliwn ar gyfer buddsoddiad yn lein reilffordd y Gororau rhwng Wrecsam a Lerpwl drwy Bidston.

Mae tri chynllun buddsoddi wedi eu cynnwys o fewn y cynnig i gyflymu'r datblygiad tuag at wasanaethau amlach, cynt a mwy dibynadwy gan ddenu mwy o deithwyr:

- **Gorsaf Parkway Glannau Dyfrdwy** - gorsaf newydd flaenllaw ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy gyda maes parcio mawr yn cynnwys 250 gofod parcio a chyfleusterau cyfnewidfa fws;
- **Cysylltiad Gwaith Sment Hanson Padeswood** – cilffyrdd cludiant newydd a phrif lein i ddiddymu'r amhariad ar wasanaethau teithwyr a achosir gan drenau cludiant yn meddiannu'r brif lein am 60 munud tra'n gwthio; a
- **Parcio a Theithio gorsaf Penyffordd** – datblygu canolbwynt trafniadaeth lleol gan gynnwys mwy o leoedd parcio ceir, cyfnewidfa fws newydd, lle storio beiciau'n ddiogel gan gynnwys darpariaeth e-feiciau a gwelliannau diogelwch i fynedfa'r orsaf.

Mae Cronfa Codi'r Gwastad yn canolbwyntio ar fuddsoddiad cyfalaf mewn isadeiledd lleol gyda'r nod o gael effaith weledol, wirioneddol ar bobl a lleoedd a chefnogi adferiad yr economi. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan mai bwriad Cronfa Codi'r Gwastad yw creu cyfleoedd ledled y wlad ac y bydd yn blaenoriaethu cynigion sy'n buddsoddi mewn adfywiad a thwf mewn lleoedd sydd mewn angen ac ardaloedd o gynhyrchiant a chysylltedd isel.

Tra bod Cronfa Codi'r Gwastad yn canolbwyntio ar fuddsoddiad mewn prosiectau sydd angen hyd at £20m o gyllid, fe greodd Llywodraeth y DU gwmpas ar gyfer buddsoddi mewn prosiectau cludiant gwerth uchel mwy fel prosiect Sir y Fflint.

Mae'r cynnig yn cynnwys llythyr o gefnogaeth sy'n flaenoriaeth gan Aelod Seneddol Alun a Glannau Dyfrdwy, Mark Tami (Llafur) a llythyr o gefnogaeth gan James Davies, AS (Ceidwadol, Dyffryn Clwyd) ar ran Grŵp Hollbleidiol Seneddol Mersi a'r Ddyfrdwy a Gogledd Cymru, yn ogystal â llythyrau ychwanegol gan sefydliadau busnes ac arweinwyr gwleidyddol lleol ledled y rhanbarth.

Dywedodd Cadeirydd Growth Track 360, y Cynghorydd Louise Gittins, Arweinydd Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer:

“Fe fydd y llwybr hwn yn cefnogi'r dyhead a gaiff ei rannu gan Lywodraethau'r DU a Chymru i weithredu ar newid hinsawdd, yn yr achos hwn drwy gysylltu yn ddi-dor â Metro newydd i Ogledd Cymru sy'n seiliedig ar goridau bws a theithio llesol yn cysylltu'r rheilffordd gyda chanolfannau preswyl a chyflogaeth allweddol – cysylltiadau nad ydynt ar gael ar hyn o bryd – yn ogystal â gyda phrosiectau cludiant cyhoeddus sydd wedi eu cynllunio ar gyfer Rhanbarth Dinas Lerpwl. Ein nod yw i ddarparu'r mynediad gorau i bobl yng Ngogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr i gyfleoedd am swyddi, cynnydd mewn sgiliau a chyfleusterau addysgol waeth ar ba ochr i ffin Cymru-Lloegr y maent yn byw.”

Dyweddodd Arweinydd Cyngor Sir y Fflint ac Is-gadeirydd Growth Track 360, y Cynghorydd Ian Roberts:

“Mae yna weledigaeth a gaiff ei rhannu yn ymwneud â thrawsnewid lein Wrecsam-Lerpwl ar draws yr holl awdurdodau lleol a sefydliadau busnes yng nghynghrair Growth Track 360. Roedd rheolau Cronfa Codi'r Gwastad y DU yn gosod Cyngor Sir y Fflint yn y sefyllfa gryfaf i wneud cais am becyn o fuddsoddiadau sydd o fudd i'r holl gymunedau ar y llwybr. Rydym yn edrych ymlaen at ymgysylltiad cadarnhaol iawn gyda Llywodraeth y DU i fynd ymlaen â'r broses hon.”

DIWEDD

Nodiadau i Olygyddion:

1. Mae Growth Track 360 yn bartneriaeth gyhoeddus-breifat a sefydlwyd yn 2016 sy'n uno Gogledd Cymru, Cilgwri a Gorllewin Swydd Gaer a Chaer. Ei nod yw gwella cysylltedd cludiant trawsffiniol gyda phwyslais arbennig ar reilffyrdd.
2. Mae Growth Track 360 yn gweithio'n agos gyda budd-ddeiliaid allweddol, eu polisïau a'u hamcanion, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Transport for the North, Awdurdod Cyfunol Rhanbarth Dinas Lerpwl, Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Trafnidiaeth Cymru, Fforwm Cludiant Cymru a Gorllewin Lloegr, a'r sector preifat.

Manylion Cyswllt

- Y Cynghorydd Louise Gittins, Cadeirydd GT360, Arweinydd Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer: Rhif Ffôn: 01244 972216 E-bost: pressoffice@cheshirewestandchester.gov.uk
- Y Cynghorydd Ian Roberts, Is-gadeirydd GT360, Arweinydd Cyngor Sir y Fflint: Rhif ffôn: 01352 702115 E-bost: karen.powell@flintshire.gov.uk
- Ashley Rogers, Cynrychiolydd Busnes GT360, Cyfarwyddwr Masnachol, Cyngor Busnes Mersi a'r Ddyfrdwy Gogledd Cymru: Rhif Ffôn: 0797 047 6599 E-bost: jarogers@nwmdbusinesscouncil.org